# Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-18-06(p.9)

### Dyddiad: 13 Rhagfyr 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Creu'r Cysylltiadau ac Arbedion Effeithlonrwydd yn y GIG - Perfformiad yn 2005/2006.

#### Diben

[1] Gofynnodd y pwyllgor am y newyddion diweddaraf ar yr arbedion effeithlonrwydd a wnaethpwyd gan y GIG yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd 2005.

#### Crynodeb

[2]Gofynnir i'r pwyllgor nodi bod y GIG wedi nodi arbedion effeithlonrwydd o £100m yn 2005/06, ac wedi rhagweld arbedion o £104m ar gyfer 2006/07.

#### Cefndir

[3]Yn 2005/2006, am y tro cyntaf, bu'n ofynnol i Gyrff y GIG ddatgelu, yn eu hadroddiadau blynyddol, yr arbedion a wnaethpwyd ganddynt o dan y fenter "Creu'r Cysylltiadau" ar gyfer eu hail-fuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen.

[4]Y bwriad oedd mai adroddiadau blynyddol y sefydliadau fyddai'r ddogfennaeth sylfaenol ar gyfer cofnodi arbedion o dan y fenter. Ar gyfer 2005/06, mae sefydliadau'r GIG wedi dehongli canllawiau Llywodraeth y Cynulliad mewn ffyrdd gwahanol iawn, gan wneud y gwaith crynhoi yn anodd. Bydd swyddogion yn tynhau'r canllawiau yn Llawlyfr Cyfrifon 2006/07 er mwyn gwella cysondeb yr adroddiadau a gyflwynir a'r modd y caiff y ffigurau eu cymharu.

[5]Ar 14 Mehefin 2006, ysgrifennodd Ann Lloyd, Pennaeth yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, at Brif Weithredwyr Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru er mwyn casglu gwybodaeth cyn dyddiad cyhoeddi'r adroddiadau blynyddol, fel y gellir ei chyflwyno yng nghyfarfod Cabinet y Cynulliad ym mis Gorffennaf. Gofynnwyd am arbedion disgwyliedig yn y dyfodol gan y GIG hefyd gan nad oes unrhyw ofyniad i nodi arbedion yn y dyfodol yn yr adroddiadau blynyddol.

[6]Atodir crynodeb o'r arbedion y cyflwynwyd adroddiadau arnynt i Mrs Lloyd isod.

| **2005/2006** | **Proses Gaffael Fwy Effeithlon** | **Symleiddio Swyddogaethau Cymorth** | **Llunio Gwasanaethau Cyhoeddus** | **Gwneud Defnydd Gwell o Amser, Sgiliau ac Arbenigedd Staff** | **Arall** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ymddirie-dolaethau | | | | | | |
| Cylchol | 18,122 | 3,326 | 4,886 | 20,577 | 362 | 47,273 |
| Anghylchol | 729 | 418 | 707 | 2,758 | 9 | 4,621 |
| BILlau | | | | | | |
| Cylchol | 6,539 | 2,790 | 22,043 | 4,806 | 0 | 36,178 |
| Anghylchol | 3,854 | 0 | 7,080 | 899 | 0 | 11,833 |
| Cyfanswm | 29,244 | 6,534 | 34,716 | 29,040 | 371 | 99,905 |
| 2006/2007<br><br>(Rhagolwg) | Proses Gaffael Fwy Effeithlon | Symleiddio Swyddogaethau Cymorth | Llunio Gwasanaethau Cyhoeddus | Gwneud Defnydd Gwell o Amser, Sgiliau ac Arbenigedd Staff | Arall | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ymddiriedol-aethau | | | | | | |
| Cylchol | 12,459 | 7,711 | 19,658 | 31,767 | 1,554 | 73,149 |
| Anghylchol | 1,110 | 131 | 550 | 0 | 0 | 1,791 |
| BILlau | | | | | | |
| Cylchol | 3,423 | 1,163 | 17,536 | 1,999 | 0 | 24,121 |
| Anghylchol | 1,401 | 60 | 2,206 | 1,460 | 0 | 5,127 |
| Cyfanswm | 18,393 | 9,065 | 39,950 | 35,226 | 1,554 | 104,188 |

[7]Yr arbedion targed ar gyfer yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan y fenter yng Nghylch Cynllunio Cyllideb 2006/07 oedd £51.1m.

Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol